# Cynhyrchu Llysiau a Ffrwythau; Peryglon cnau a mesurau rheoli

**Beth yw'r broblem**

Gall alergenau achosi ystod eang o salwch mewn pobl sy'n dioddef o adwaith alergaidd i fwydydd.






Gall amrywio o effeithiau ysgafn fel cosi a chochni ar y croen, i anhawster anadlu ac o bosibl marwolaeth.

Mae alergeddau bwyd yn digwydd pan fydd y system imiwnedd (amddiffyniad y corff yn erbyn haint) yn camgymryd proteinau a geir mewn bwyd ac yn eu trin fel bygythiad. Gwyddom fod dros 160 o fwydydd yn gysylltiedig ag adweithiau alergaidd.

Gall y symptomau o'r hyn mae'r corff yn ei weld fel bygythiad fod yn sydyn ac yn ddifrifol. O ganlyniad, mae nifer o gemegau yn cael eu rhyddhau. Y cemegau hyn sy'n achosi symptomau adwaith alergaidd.

Gall bron unrhyw fwyd achosi adwaith alergaidd, ond mae rhai bwydydd penodol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o alergeddau bwyd.

Mae 14 o alergenau y mae'n rhaid eu datgan yn ôl y gyfraith yn y Deyrnas Unedig.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |  |  |
| Cereals containing gluten | Eggs | Fish | Crustaceans | Peanuts | Soya | Celery |
|  |  |  |  |  |  |  |
| Milk | Tree nuts | Mustard | Sesame | Sulphur dioxide | Lupin | Molluscs |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

Mae 8 o gnau coed sy'n alergenig yng ngolwg y gyfraith yn y DU. Sef:

| | |
|---|---|
| • Almonau. | • Macadamia. |
| • Cnau Brasil. | • Pecan. |
| • Cashiw. | • Pistasio. |
| • Cnau cyll. | • Cnau Ffrengig. |

O fewn y DU, mae cnau cyll a chnau Ffrengig i'w cael yn gyffredin mewn gwrychoedd a chaeau.

| | Tree | Unshelled nut | Shelled nut |
|---|---|---|---|
| Walnut |  |  |  |
| Hazelnut |  |  |  |

Problem arall yw y gall adar gario cnau pan fyddant yn hedfan a'u gollwng i'ch cnydau, felly gallai coeden gnau fod sawl milltir i ffwrdd o'ch cae a dal i fod yn achosi problem.



Cofiwch y gallai adar fod yn clwydo ar linellau pŵer / ceblau uwchben cnydau. Mae mwy o risg y bydd cnau'n cael eu gollwng yn yr ardal hon nag mewn caeau agored, felly efallai y bydd angen i chi roi dyfeisiau dychryn adar yn yr ardaloedd hyn.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

Gan na allwch gael gwared ar bob coeden gnau o'r ardal gyfagos, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r risg a chymryd camau priodol.

**Beth allwch chi ei wneud fel tyfwr i leihau'r risg**

Deall pa goed cnau sy'n tyfu yn eich gwrychoedd a'ch caeau.

- Ni allwch reoli'r hyn sydd y tu hwnt i'ch tir eich hun ond mae gwybod pa goed cnau, os oes rhai o gwbl, sydd ar eich tir eich hun yn fan cychwyn.
- Edrychwch ar y dolenni isod i'ch helpu i adnabod y coed yn eich gwrychoedd a'ch caeau.
- Canllaw A-Z - Coed Prydain - Coed Cadw
- Adnabod Coed Gyda'n Ap Adnabod Coed - Coed Cadw
- Os nad oes gennych unrhyw goed cnau, yna mae'r risg yn fach iawn.

Os oes gennych goed cnau, marciwch nhw ar fap / gyda marcwyr gweladwy fel eich bod chi'n gwybod ble maen nhw hyd yn oed pan nad oes dail neu gnau yn bresennol ar y coed.



Nodwch y risg i'r cnydau rydych am eu tyfu a phenderfynwch beth yw'r risg o gneuen o goeden yn cael ei dal yn rhan fwytadwy'r cnwd.

Ni fydd cnau coed yn mynd i mewn i gnydau / yn cael eu dal yn rhan fwytadwy'r cnwd os yw'r cnwd:

- Yn tyfu o dan y ddaear.
- O fewn croen neu blisgyn y gellir ei dynnu.
- Yn solet ac yn llyfn.

Mae gan gnydau fel moron (solet, o dan y ddaear), tatws (solet, o dan y ddaear), planhigyn wy (solet a llyfn), a phys (o fewn plisgyn y gellir ei dynnu) risg isel y bydd cnau o goed yn cael eu dal yn rhan fwytadwy'r cnwd.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

Gallai cnau o goed fynd i mewn i gnydau / gael eu dal mewn cnwd sydd:

- Yn tyfu uwchben y ddaear ac sydd â dail sy'n plygu dros ei gilydd.
- Yn tyfu uwchben y ddaear ac sydd â dail sy'n ffurfio pen agored.
- Yn tyfu uwchben y ddaear gyda dail crychlyd.

Mae yna risg i gnydau fel bresych Savoy (uwchben y ddaear, dail wedi plygu), letys pen agored (uwchben y ddaear, pen agored), cêl (uwchben y ddaear, dail crychlyd) y gallai cnau gael eu dal yn y rhan fwytadwy.

Yn dibynnu ar sut mae'r cnwd yn cael ei ddefnyddio, os yw cnau coed yn cael eu dal yn y cnwd, efallai na fyddant yn cael eu gweld ac y gallent gael eu torri'n ddarnau a diweddu mewn pryd o fwyd sy'n cael ei fwyta gan rywun ag alergedd i gnau coed.

Os ydych chi am dyfu cnwd sydd â risg lleiaf posibl bod cnau coed yn mynd i mewn i ran fwytadwy'r cnwd yn agos at goeden gnau, yna ni ddylai hyn achosi unrhyw broblemau, ond os ydych chi am leihau'r risg ymhellach, gallwch chi:

- Blannu a chynaeafu'r cnwd cyn bod cnau yn bresennol ar y goeden.
- Gorchuddio'r cnwd gyda rhwyll.

Os ydych chi am dyfu cnwd sydd â risg y bydd cnau yn mynd i mewn / cael eu dal yn rhan fwytadwy'r cnwd, yna mae angen i chi gymryd mesurau rheoli priodol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Tyfu'r cnwd o leiaf 10m i ffwrdd o'r goeden cnau
    - Gallai'r cnau syrthio neu gael eu chwythu ond mae'r risg o fynd i mewn i'r cnwd yn llai na phe bai'r cnwd yn cael ei dyfu'n uniongyrchol o dan y goeden gnau.

- Tyfu'r cnwd dan orchudd rhwyll.
    - Gallai'r cnau syrthio neu gael eu chwythu ond ni ddylai fod unrhyw ffordd i'r cnau fynd i mewn i'r cnwd. Mae angen i staff fod yn ymwybodol bod rhaid gwirio'r rhwyll a thynnu'r rhwyll yn ofalus heb gyffwrdd y cnau (neu gael gwared ar y cnau ac yna golchi dwylo) i rwystro'r cnau rhag mynd i mewn i'r cnwd.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE



- Plannu’n agosach at y goeden gnau, ond cynaeafu’r cnwd cyn bod y cnau yn bresennol ar y goeden.
    - Bydd hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o bryd y mae cnau’n debygol o fod yn bresennol yn y cae.

**Cofnodion Diwydrwydd Dyladwy**

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd dan gyfraith y DU, rydych chi'n ddieuog nes y cewch eich profi'n euog.

Fodd bynnag, mewn cyfraith bwyd, rydych yn euog a rhaid i chi brofi eich bod chi neu'r cwmni rydych chi'n gweithio iddo yn ddieuog.

Dyma’r sail i Amddiffyniad Diwydrwydd Dyladwy.

Diffinnir amddiffyniad diwydrwydd dyladwy fel sefyllfa lle mae person / cwmni wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni trosedd.

Mae diwydrwydd dyladwy yn golygu bod y systemau ar gyfer rheoli diogelwch bwyd yn cael eu gweithredu'n llawn, eu gwirio a, lle bo angen, eu cywiro.

Diwydrwydd dyladwy yw'r prif amddiffyniad o dan gyfraith diogelwch bwyd os yw busnes yn rhan o ddigwyddiad diogelwch sy'n ymwneud â'i fwyd a allai arwain at erlyniad.

Mae llawer o'r camau y gallwch eu cymryd yn fesurau ymarferol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi'r camau rydych chi'n bwriadu eu cymryd yn y Daenlen ar gyfer Tyfwyr ar Raddfa Fach a'r polisi alergenau*.

Cymerwch luniau o’r mesurau rheoli sydd ar waith a gwnewch gofnodion o’r gwiriadau sydd wedi eu gwneud.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

Bydd hyn i gyd yn ychwanegu at eich tystiolaeth o ddiwydrwydd dyladwy pe bai problem gyda halogi gan gnau coed yn eich cnydau.

*Mae cynlluniau Sicrhau Ansawdd yn rhoi set o safonau i weithio tuag atynt, sy'n anelu at ddarparu diwydrwydd dyladwy i'r cynhyrchydd a'r prynwr. Mae rhaglen Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn cynnig mynediad a chefnogaeth i Safon Tyfwyr ar Raddfa Fach pwrpasol ar gyfer tyfwyr masnachol Cymru. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am hyn, cysylltwch â Horticulture@lantra.co.uk

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect cyswllt FFERMIO

GARDDWRIAETH HORTICULTURE